Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

4 Medi, 2025

TEITL: Materion ac opsiynau sy'n ymwneud ag ariannu'r gwaith o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS)

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr
Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol mewn perthynas â'r mater o gyllido gwaith cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS). Mae hyn yn rhan o ddyletswydd statudol y CBC i baratoi'r CDS, ac mae'r adroddiad yn nodi'r costau cynhyrchu, y ddarpariaeth yn y gyllideb bresennol, a'r lefel sy'n ofynnol i dalu'r costau llawn, gan gynnwys opsiynau i liniaru costau.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r materion cyllido a'r opsiynau a nodir yn y nodyn briffio atodol, sef ***Atodiad 1***, ac argymell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried pob opsiwn i gyllido'r CDS, gan gynnwys gwneud sylwadau pellach i Lywodraeth Cymru.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Sicrhau bod yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol yn gwbl ymwybodol o'r materion cyllido a'r opsiynau sy'n ymwneud â'r CDS i lywio eu hargymhellion i'r Cyd-bwyllgor.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ystyriodd yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol y mater o gyllido'r CDS mewn sesiwn friffio anffurfiol a gynhaliwyd ddydd Gwener, 27 Mehefin, 2025. Mae'r adroddiad hwn yn pwyso a mesur, yn ffurfiol, y materion a'r opsiynau sydd ar gael i ariannu'r CDS yn llawn.

4.2. Mae'r nodyn briffio atodol (***Atodiad 1***) yn rhoi dadansoddiad llawn o'r amcangyfrif o gost gyffredinol cynhyrchu'r CDS, sy'n deillio o waith manwl a wnaed gan Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru yn 2021. Gan ganiatáu ar gyfer cynnydd mewn prisiau ers i'r gwaith hwnnw gael ei wneud, asesir bod y gost gyffredinol o gynhyrchu'r CDS yn £3.276m.

4.3. Mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill yng Nghymru wedi gwneud amcangyfrifon tebyg, yn amrywio o'r ffigur uchod i £4m mewn un achos. Mae pryderon ynghylch ariannu lefel y costau dan sylw yn destun llythyr drafft sy'n cael ei ystyried gan Gadeiryddion CBC ac y bwriedir ei anfon at Weinidogion Cymru.

4.4. Mae'r Rheoliadau CDS yn nodi'n glir bod cynhyrchu CDS yn ddyletswydd statudol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac ymhlyg gyda hynny mae'r cyfrifoldeb i dalu'r costau llawn o wneud hynny. Ar wahân i rywfaint o arian grant cymedrol ar y cychwyn, nid oes unrhyw gyllid wedi'i adnabod ar gyfer y CDS gan Lywodraeth Cymru, yn wahanol i'r ymrwymiad a gyhoeddwyd i gefnogi gwaith y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Fel ag y mae pethau, mater i'r CBC yw talu costau llawn y CDS.

4.5. Trwy gyllidebu darbodus, mae'r CBC eisoes wedi gwneud darpariaeth ar gyfer, ac wedi ariannu gwaith cynnar ar sail dystiolaeth y CDS, ochr yn ochr â gwaith cyfochrog ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae cyllideb y CBC am 2025/26 yn dyrannu cyllideb o £0.431m ar gyfer gwaith ar y CDS, sy'n cynnwys costau cyflogau cynnar i staff y Cyd-bwyllgor yn bennaf, a dyraniad ar gyfer cymorth ymgynghori. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol yn rhanbarth Gogledd Cymru ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn talu costau'r gyllideb drwy gyfraniadau i'r CBC, wedi'u dosrannu yn seiliedig ar faint y boblogaeth.

4.6. O safbwynt adnoddau, mae'r CBC wedi ymgysylltu â swyddog arweiniol yn fewnol i gydlynu cynnydd, a hyd yma:

- Mae Cytundeb Cyflawni drafft wedi'i gynhyrchu sydd yn destun ymgynghori ar hyn o bryd.
- Mae gwaith cymorth ymgynghori cynnar wedi'i gwmpasu ac wrthi'n cael ei gostio.
- Mae'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol wedi'i gynnull gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd wedi'u hethol.
- Mae adolygiad o sefyllfa'r gyllideb a'r gofynion cyllido ar gyfer y CDS wedi'i gynnal.
- O ran sefyllfa'r gyllideb, mae'r Cytundeb Cyflawni wedi gosod rhaglen cynhyrchu CDS dros bum mlynedd, sef 2026-2031, gyda'r amcangyfrif o gyfanswm y gost yn £3.276m.

4.7. Byddai cymryd y dyraniad cyllideb cyfredol 2025/26 ar gyfer y CDS (£0.431m) a chynllunio dros raglen bum mlynedd y CDS o 2026 ymlaen, yn rhoi cyfanswm cyllideb o £2.158m.

5. CYFLAWNI COSTAU LLAWN Y CDS

5.1. O'i gymharu â'r amcangyfrif o gyfanswm cost y CDS (£3.276m), mae hyn yn gadael diffyg posibl o oddeutu £1.1m yn y gyllideb dros y rhaglen bum mlynedd, neu £0.223m y flwyddyn. Mae hyn, ar gyfartaledd, yn gofyn £32k yn ychwanegol y flwyddyn gan bob Awdurdod Lleol ar gyfer y rhaglen dros bum mlynedd (yn ychwanegol at gyfraniadau cyfredol y CDS), er bydd hyn yn amrywio pan gaiff ei ddosrannu yn ôl maint y boblogaeth. DS: y cyfraniad, ar gyfartaledd, i'r CDS yng nghyllideb 2025/26 oedd £61.6k. - felly mae angen cynnydd o oddeutu 50% o'r cyfraniad presennol. Fel rhan o'r cyfrifiadau a wnaed gan Brif Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru yn 2021, mae'n berthnasol i'r Aelodau nodi bod costau cyfartalog ac/neu ddosrannu uwch wedi'u hadnabod i awdurdodau lleol na'r ffigurau uchod.

5.2. Er bod y CBC wedi cyrraedd carreg filltir gyntaf sylweddol gyda'r CDS wrth gynhyrchu ac ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni, ni fydd yn gallu cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo nes y gall ddangos sut y bydd yn cwrdd â holl gostau cynhyrchu'r CDS. Dim ond trwy broses gosod cyllideb 2026/27 y gall wneud hyn trwy ddangos ei fod wedi gosod cyllideb gymesur i gwrdd â chostau'r flwyddyn gyntaf yn llawn, ac yna darparu datganiad ymrwymiad i gyflawni'r un ddarpariaeth am y pedair blynedd sy'n weddill o gynhyrchu'r cynllun.

5.3. Mae amryw o opsiynau ar gael i'r CBC i liniaru'r diffyg yn y gyllideb:

- Sicrhau grant untro yn ystod y flwyddyn (2025/26) o hyd at £200k y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig ar hyn o bryd, sy'n gysylltiedig â pherfformiad – byddai hyn yn dibynnu ar y CBC yn cymeradwyo Cytundeb Cyflawni drafft ar ôl ymgynghori (Medi 2025 yw targed y CBC ar gyfer cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni - £100k), a chyflwyno'n ffurfiol o fewn y flwyddyn ariannol hon (h.y. cyn 31 Mawrth, 2026 - £100K). Mae'r ail ran yn dibynnu ar osod cyllideb lawn yn unol â pharagraff 5.2 uchod.
- Cynyddu ardoll yr Awdurdodau Lleol ar gyfer y CDS yn y flwyddyn ariannol 2026/27 a gwneud ymrwymiad i gynnal y lefel honno am bedair blynedd arall.
- Edrych ar ddefnyddio balansau neu gronfeydd wrth gefn o gyllidebu darbodus blaenorol.
- Trafod ymhellach gyda Llywodraeth Cymru (e.e. Llythyr Cadeiryddion).
- Cydweithio ag awdurdodau lleol a allai ganiatáu gwneud arbedion mewn cyflogau a'u defnyddio i leihau cyfraniadau yn ystod y flwyddyn.
- Gwneud y mwyaf o gymorth ymgynghori cost-effeithiol.
- Dehongli Rheoliadau CDS yn effeithlon i gynhyrchu'r cynllun yn gyflymach a lleihau'r costau cyffredinol.

5.4. Yn y pen draw, rhaid i'r CBC ddangos y gall ariannu gwaith cynhyrchu'r CDS. Tan hynny, ni all gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i'w gymeradwyo'n ffurfiol na gwneud unrhyw gynnydd pellach gyda gwaith cynhyrchu'r cynllun.

6. Y CAMAU NESAF

6.1. Gofynnir i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo'r materion a'r papur opsiynau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn ac argymell i'r CBC ystyried yr opsiynau hyn.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Bydd y costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau cymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru ac yn edrych ar yr holl opsiynau ariannu perthnasol eraill. O ran cyllideb bresennol y CBC ar gyfer 2025/26 sy'n ymwneud â'r CDS, byddai angen cynyddu'r gyllideb hon 50% o'r lefel bresennol bob blwyddyn, dros gyfnod cynhyrchu'r cynllun sef 2026-2031, i gwrdd â chostau llawn y CDS.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Nodyn Briffio Materion ac Opsiynau Cyllido CDS

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn tanlinellu'r mater o ariannu proses y Cynllun a'r angen i'r CBC sicrhau bod y mater hwn yn cael ei ddatrys fel rhag-amod ar gyfer cyflwyno'r Cytundeb i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn nodi'r materion allweddol sy'n dal angen sylw a bydd angen i'r CBC eu hystyried fel rhan o'i safbwynt cyffredinol ar y gyllideb a'i gynrychioliadau at Lywodraeth Cymru."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae gosod y gyllideb cynllunio strategol yn benderfyniad a wneir fel rhan o'r broses gyffredinol o osod cyllideb ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan ei fod yn ddosraniad ymhlith y cynghorau cyfansoddol a'r awdurdod parc cenedlaethol. Mae cyllidebu yn broses ddi-dor, ac mae'r costau amcangyfrif o gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol dros y pum mlynedd nesaf yn cael eu hystyried yn barhaus, tra bod yr amcangyfrifon a ddarperir gan Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru yn sail ddefnyddiol a gwybodus i ymgymryd â'r gwaith.

Er bod paragraff 4.7 o'r adroddiad a'r tablau yn yr atodiad yn dangos diffyg pe bai'r dyraniad cyllideb ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol yn parhau i fod yn sefydlog dros gyfnod o bum mlynedd y rhaglen, nid yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cytuno ar hyn eto. Bydd y gyllideb ar gyfer 2026/27 yn cael ei osod ym mis Ionawr 2026.

Gellir crynhoi'r opsiynau ym mharagraff 5.3 fel cynyddu incwm, lleihau costau, neu gyfuniad o'r ddau. Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig unrhyw bwerau i godi trethi, felly'r unig gynnydd mewn incwm y gall ei ddisgwyl byddai grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru neu gynnydd yn yr ardoll a godir ar y chwe cyngor cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Llywodraeth Cymru yn annhebygol o gynnig cyllid ychwanegol oni bai bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwneud ceisiadau am gyfraniad ychwanegol."